# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Mai 2023

Amser: Times Not Specified

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13322

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Jayne Bryant AS (Cadeirydd)<br>James Evans AS<br>Ken Skates AS<br>Buffy Williams AS<br>Sioned Williams AS |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Tom Lewis-White (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Catherine McKeag (Swyddog)<br>Jennifer Cottle (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Sian Hughes (Ymchwilydd)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Laura Jones, nid oedd neb yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o eitem gyntaf y cyfarfod ar 10 Mai

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4 Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical - trafod yr adroddiad drafft

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft. Caiff ei drafod ymhellach yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 - trafod ymateb Llywodraeth Cymru

5.1 Trafododd yr Aelodau yr ymateb gan Lywodraeth Cymru a'r papur i’w nodi 10, sef llythyr gan y Pwyllgor Cyllid. Cytunodd yr Aelodau i ysgrifennu'n ôl at y Pwyllgor Cyllid gyda'u barn ar dystiolaeth ysgrifenedig gweinidogol.

## 6 Mynediad at addysg i blant a phobl ifanc anabl - trafod strategaeth ymgysylltu

6.1 Cytunodd yr Aelodau ar y dull o ymgysylltu â Senedd Ieuenctid Cymru. Fe wnaethon nhw hefyd drafod rôl ac allbwn dewisol y grŵp cynghori ar-lein a chytuno arnynt.

## 7 Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil – trafod y dull gweithredu

7.1 Cytunodd yr Aelodau ar y dull gweithredu. Fe gytunon nhw hefyd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg ac Addysg ynglŷn â'r broses cyn penodi.